
Cardiff County
MUSIC SERVICE
Vale of Glamorgan



Sir Caerdydd
GWASANAETH CERDD
Bro Morgannwg

GWERSI CERDD MEWN YSGOLION

ENSEMBLES

PECYN GWYBODAETH I RIENI

2019 / 2020

Cynnwys

<u>Cyflwyniad</u>	2
<u>Ffioedd a Mathau o Wersi</u>	3
<u>Telerau ac Amodau</u>	5
<u>Cyfarwyddiadau ar gyfer Cofrestru</u>	7
<u>Talu Ffioedd</u>	14
<u>Cwestiynau Cyffredin</u>	15

CYFLWYNIAD

Os ydych chi'n ystyried cofrestru eich plentyn ar gyfer gwersi cerdd yn yr ysgol neu ensemble, darllenwch y wybodaeth ganlynol.

Er mwyn cael gwersi cerdd gan Wasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg (CCVGMS) neu ymuno ag ensemble, mae'n rhaid i'ch plentyn fod wedi'i gofrestru ar ein system. Os nad yw eich plentyn wedi'i gofrestru ni fydd modd iddo gael gwersi neu ymuno â'r ensemble.

Os oes angen i chi gysylltu â ni, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Cyfeiriad Post: CCVGMS, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW

Ffôn: 029 2087 2951 neu 029 2087 2883

E-bost: gwasanaethcerddccbm@caerdydd.gov.uk

Oriau Agor y Swyddfa:

Dydd Llun i ddydd Gwener 9am tan 4pm

Mae gan y Gwasanaeth Cerdd athrawon peripatetig sy'n rhoi gwersi cerdd mewn ysgolion yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Cynhelir y gwersi cerdd yn ystod oriau ysgol. Mae'r offerynnau a gynigir yn amrywio o ysgol i ysgol. Gallwch weld pa offerynnau sydd ar gael yn ysgol eich plentyn wrth i chi ddechrau'r broses gofrestru. Neu, gallwch gysylltu â swyddfa'r Gwasanaeth Cerdd. Caiff yr ensembles eu rhedeg gan staff y Gwasanaeth Cerdd a'u cynnal gyda'r nos.

Gan fod gwersi cerdd yn cael eu cynnal yn ystod oriau ysgol bydd yr athro a'r ysgol yn ceisio sicrhau nad yw disgyblion yn colli pynciau craidd.

Mae'r gwersi cerdd ar gael ar lefel dechreuwyr ac uwch. Gall eich plentyn fynd ymlaen i ymgeisio am raddau os ydynt yn dymuno.

Mae ensembles ar gael i ddisgyblion sydd wedi bod yn chwarae offeryn am flwyddyn neu fwy. Sylwer: Mae cyfyngiad oedran ar rai offerynnau e.e. Offerynnau Chwyth a Phres. Gall hyn fod oherwydd rhychwant bysedd y plentyn neu'r ffaith fod ei ddannedd cyntaf ganddo o hyd. Os hoffech gael gwybodaeth ar ddewis offeryn ar gyfer eich plentyn, ewch i'r wefan <http://www.ccvgmusicsservice.org>.

Os oes anghenion dysgu ychwanegol gan eich plentyn, rhowch wybod i Swyddfa'r Gwasanaeth Cerdd er mwyn i ni allu dweud wrth yr athro.

Mae rhai ysgolion yn galluogi plant i ddysgu mwy nag un offeryn. Dylech gadarnhau hynny gyda'r ysgol dan sylw. Os yw eich plentyn yn dysgu mwy nag un offeryn, bydd rhaid i chi gofrestru ar gyfer y ddau.

FFIOEDD GWERSI CERDDORIAETH 2019/202020

Math y Wers	Ffi Blwyddyn Academaidd Medi 2019 – Gorffennaf 2020
Grŵp	£57 y tymor
Mewn pâr am 20 munud	£74 y tymor
Mewn pâr am 30 munud	£110 y tymor
Yn unigol am 15 munud	£110 y tymor
Yn unigol am 20 munud	£146 y tymor
Yn unigol am 30 munud	£218 y tymor

FFIOEDD YSGOL GYFUN STANWELL 2019/202020

Math y Wers	Ffi Blwyddyn Academaidd Medi 2019 – Gorffennaf 2020
Grŵp o 3 am 20 munud	£50.70 y tymor
Grŵp o 3 am 30 munud	£76.05 y tymor
Grŵp o 4 am 30 munud	£57.07 y tymor
Mewn pâr am 15 munud	£57.07 y tymor
Mewn pâr am 20 munud	£76.05 y tymor
Mewn pâr am 30 munud	£114.14 y tymor
Yn unigol am 10 munud	£76.05 y tymor
Yn unigol am 15 munud	£114.14 y tymor
Yn unigol am 20 munud	£152.10 y tymor
Yn unigol am 30 munud	£228.15 y tymor

FFIOEDD YSGOL GYFUN Y RADUR 2019/202020

Math y Wers	Ffi Blwyddyn Academaidd Medi 2019 – Gorffennaf 2020
Grŵp / Pâr	£74 y tymor
Yn unigol am 20 munud	£146 y tymor
Yn unigol am 30 munud	£218 y tymor

FFIOEDD ENSEMBLES 2019/202020

Ensemble	Tâl
Pres i Ddechreuwyrr	£52 y tymor
Pres Sylfaenol	£52 y tymor
Cerddorfa Sylfaenol	£52 y tymor
Band Pres Ysgol Uwchradd	£62 y tymor
Band Mawr Ysgol Uwchradd	£52 y tymor
Cerddorfa Ysgol Uwchradd	£62 y tymor
Gitâr Iau	£52 y tymor
Dosbarthiadau Taro	£52 y tymor
Gitâr Hŷn	£52 y tymor
Band Gwynt Hŷn	£62 y tymor
Côr Hyfforddi	£42 y tymor
Cerddorfa Pontio	£62 y tymor
Band Mawr Ieuentid	£62 y tymor
Band Pres Ieuentid	£62 y tymor
Côr Ieuentid	£42 y tymor
Cerddorfa Ieuentid	£62 y tymor

Nodir lleoliadau, diwrnodau ac amserau'r ensembles ar ddiwedd y canllaw hwn
Mae tri thymor mewn blwyddyn academiaidd. Mae gan bob tymor egwyl hanner tymor.

Tymor yr Hydref – Mis Medi hyd at y Nadolig

Tymor y Gwanwyn – Mis Ionawr hyd at y Pasg

Tymor yr Haf – Y Past hyd at Ddiwedd y Flwyddyn Ysgol

Math y Wers

Mae Gwasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg yn cynnig tri math o wersi i rieni:

Math y Wers	Disgrifiad
Grŵp	Mae gwersi grŵp yn cynnwys 4 disgybl yn cael gwर्स 30 munud gyda'i gilydd. Mae hyn gyfystyr â 7.5 munud fesul disgybl. Mae gwर्स grŵp yn fan cychwyn da i ddechreuwr. Os nad oes digon o ddisgyblion i ffurfio grŵp o 4, caiff amser y wers ei addasu o ganlyniad.
Gwersi mewn pâr	Mae gwर्स mewn pâr yn ddewis ardderchog i ddisgyblion sy'n gweithio'n dda mewn grŵp bach, fodd bynnag, mae'n dibynnu ar gael dau ddisgybl ar yr un lefel i ffurfio pâr. Os nad oes modd ffurfio pâr addas, bydd disgyblion yn cael gwर्स unigol am yr amser addasedig h.y. bydd gwर्स 20 munud o hyd i bâr yn wers 10 munud i unigolyn, bydd gwर्स 30 munud o hyd i bâr yn wers 15 munud i unigolyn.
Gwersi unigol	Mae rhai disgyblion yn ffynnu mewn gwर्स unigol, yn enwedig os ydynt yn sefyll arholiadau ar lefelau uwch neu os oes well ganddynt gael sesiynau un-i un.

Os ydych am i'ch plentyn gael gwर्स 30 munud o hyd mewn pâr neu wers 20 munud o hyd yn unigol, cofrestrwch, dewiswch 'gwर्स grŵp', yna cysylltwch â Swyddfa'r Gwasanaeth Cerdd a byddwn ni'n gwneud yr addasiad perthnasol ar eich rhan.

TELERAU AC AMODAU

Gofalwch eich bod yn darllen y telerau ac amodau yn drylwyr oherwydd gofynnir i chi gytuno arnynt ar ddiwedd y broses gofrestru.

1. Nod Gwasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg yw rhoi 35 o wersi/ sesiwn ensemble yn ystod y flwyddyn academaidd fel yr eglurir yn y Pecyn Gwybodaeth i Rien. Fodd bynnag, os bydd eich plentyn yn dechrau rhan o'r ffordd drwy Dymor y Gwanwyn/Tymor yr Haf, caiff nifer y gwersi/sesiynau ensemble eu haddasu o ganlyniad. Nid ydym yn rhoi nifer penodol o wersi/sesiynau fesul tymor oherwydd bod tymhorau ysgol yn amrywio o ran hyd ac o'r herwydd yn effeithio ar nifer y gwersi/sesiynau a roddir yn ystod unrhyw dymor. Mae'r ffioedd am y tymor ac nid nifer y gwersi/sesiynau a roddir. Sylwer: **Wrth gofrestru rydych yn ymrwymo i'r tymor cyfan o wersi/sesiynau ensemble.**
2. Rhoi'r gorau i wersi/sesiynau ensemble – I dynnu'ch plentyn o'r gwersi/sesiynau mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r gwasanaeth cerdd yn ysgrifenedig un ai dros e-bost neu drwy lythyr. Nid oes rhaid i'ch plentyn barhau gyda gwersi/sesiynau am weddill y tymor, fodd bynnag bydd rhaid i chi dalu **ffioedd y tymor cyfan**. Dylech ysgrifennu at Wasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW neu anfon e-bost gwasanaethcerddccbm@caerdydd.gov.uk i roi gwybod am eich bwriad i dynnu eich plentyn o wersi. **Ni fydd rhoi gwybod ar lafar neu'n ysgrifenedig i'r athro/arweinydd ensemble/ysgol yn cael ei ystyried yn ddigonol.**
3. Newidiadau i wersi/ensembles – Os ydych yn dymuno newid y math o wers a gaiff eich plentyn e.e. o wers mewn grŵp i wers mewn pâr ac ati, neu sesiwn ensemble, rhowch wybod i swyddfa'r Gwasanaeth Cerdd ar unwaith dros e-bost neu drwy lythyr. Byddwn yn cysylltu â'r athro/arweinydd ensemble i weld os yw hynny'n ymarferol, ond yn y pen draw Gwasanaeth Cerdd Cyngor Caerdydd a Bro Morgannwg fydd yn penderfynu p'un ai i gytuno â'r cais neu beidio. **Nid oes modd newid math y wers/ensemble rhan o'r ffordd drwy'r tymor;** mae angen i ni gael gwybod yn ysgrifenedig o flaen llaw er mwyn gwneud y trefniadau ar gyfer y tymor dilynol. **Yr un yw'r drefn os yw eich plentyn yn dymuno newid offeryn.**
4. Caiff anfonebau eu hanfon bob tymor. Byddwch yn cael gwybod pryd i dalu'r anfoneb dros e-bost. Rhaid talu'r ffioedd cyn pen 28 diwrnod o'r dyddiad y daw'r e-bost i law. Bydd methu â thalu'r ffioedd mewn pryd yn golygu na fydd eich plentyn yn cael gwersi/cymryd rhan mewn sesiynau ensemble nes telir y ffioedd, **fodd bynnag, bydd disgwyl i chi dalu'r ffioedd am y tymor cyfan.** Os na chaiff y ffioedd eu talu mewn pryd, bydd cyfrifoldeb y Gwasanaeth Cerdd i roi gwersi/sesiynau ensemble i'ch plentyn yn dod i ben a bydd Gwasanaeth Adfer Dyledion y Cyngor yn bwrw ati i adfer unrhyw symiau sy'n ddyledus – a allai arwain at roi camau gweithredu ar waith yn eich erbyn.
5. (a) Yn amodol ar (b) isod, os bydd yr athro yn absennol o unrhyw wers, neu os bydd digwyddiadau, amgylchiadau neu achosion y tu hwnt i reolaeth Gwasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg yn golygu bod rhaid colli gwersi, gwneir pob ymdrech resymol i ail-drefnu'r gwersi dan sylw. Fodd bynnag, ceidw Gwasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg yr hawl i ad-dalu ffioedd am wersi a gollwyd yn lle hynny. (b) Ni chaiff unrhyw wersi/sesiynau a gollir oherwydd absenoldeb y

disgybl (am ba reswm bynnag – e.e. (yn ddigyfyngiad) trip ysgol, diwrnod chwaraeon, salwch, ac ati.) eu haildrefnu ac ni ad-delir unrhyw ffioedd.

6. Disgwylir i ddisgyblion ymarfer yn unol â chyfarwyddiadau eu hathro a dod i'w gwersi/sesiynau yn brydlon gyda'u hofferynnau a'u llyfrau perthnasol. Mae'n bosib y caiff unrhyw ddisgybl sy'n methu â dod i'w wersi'n brydlon gyda'i offeryn a'i lyfrau; neu sy'n creu helynt neu'n gwrthod cydweithredu ei wahardd rhag cael gwersi yn y dyfodol. Ni chaiff disgyblion sydd wedi'u diarddel neu eu gwahardd o'r ysgol ddod i'w gwersi yn ystod cyfnod y diarddeliad neu waharddiad. Yn unrhyw un o'r amgylchiadau hyn, bydd ffioedd y tymor llawn yn parhau'n daladwy; ni chaiff gwersi eu hail-drefnu ac ni roddir unrhyw ad-daliadau.
7. Gan weithredu'n rhesymol a chyda phob ewyllys da, mae'n bosib y caiff y telerau ac amodau hyn eu hamrywio gan Wasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg o bryd i'w gilydd. Cewch wybod am unrhyw amrywiadau dros e-bost. **Drwy gwblhau'r broses gofrestru ar-lein rydych yn cadarnhau eich bod yn cytuno â'r holl delerau ac amodau (gan gynnwys yr holl amrywiadau dilynol perthnasol) ac yn cydnabod bod hyn yn creu contract cyfreithiol rwymol a fydd yn parhau oni bai eich bod yn ysgrifennu atom i roi gwybod i ni eich bod am dynnu eich plentyn yn ôl o wersi/sesiynau ensemble.** Petai eich plentyn yn symud i ysgol arall ac yn dymuno parhau â'i wersi, rydych yn cytuno i roi gwybod i Wasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg yn ysgrifenedig.

Bydd modd cofrestru ar gyfer Medi o ddiwedd Gorffennaf

Gallai defnyddio ffôn symudol neu iPad achosi problemau.

I gofrestru, cliciwch ar y ddolen hon: <https://live.paritor.com/p/2306>.

Ar ôl i chi glicio'r ddolen, dewiswch Creu Cyfrif. I greu cyfrif, rhowch eich cyfeiriad e-bost, cliciwch y botwm Anfon Cod Dilysu. Bydd e-bost yn cael ei anfon atoch gyda chod. Nodwch y cod hwnnw yn y blwch a chliciwch Dilysu Cod. Yna, nodwch gyfrinair yr hoffech ei ddefnyddio. Bydd eich cyfrif yn cael ei greu. **Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'ch manylion mewngofnodi gan y bydd eu hangen nhw arnoch chi i wneud taliadau neu newidiadau yn y dyfodol.**

Yna, dilynwch y camau hyn i gofrestru:

- Cliciwch Cofrestru ar gyfer Gweithgaredd
- Dewiswch Ysgol
- Dewiswch Wers
- Dewiswch Gyfradd Gweithgaredd e.e. Grŵp/Pâr/Unigolyn
- Nodwch Fanylion y Disgybl
- Dewiswch y Berthynas â'r Plentyn

Gynted ag y byddwch wedi mynd drwy'r broses hon byddwch yn dod i'r Man Talu. Mae'r tab Newid Manylion y Talwr yn flwch llwyd tua hanner ffordd i lawr y dudalen. Cliciwch ar hyn a nodwch eich manylion.

Bydd crynodeb o'r hyn yr ydych wedi cofrestru ar ei gyfer yn cael ei ddangos; cadarnhewch ei fod yn gywir a chliciwch rwy'n cytuno â'r Telerau ac Amodau. **Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y Telerau ac Amodau.** Wedyn dewiswch Cofrestru. Fyddwch chi ddim wedi cofrestru tan i chi glicio ar Cofrestru.

Byddwch wedyn yn derbyn e-bost cadarnhau yn dweud eich bod wedi cofrestru'n llwyddiannus.

Ar ôl i chi gofrestru, caiff lleoedd eu cadw mewn gwersi ar gyfer eich plentyn oni fyddwch chi'n rhoi gwybod i ni am wneud fel arall. Fydd dim rhaid i chi ailgofrestru bob tymor.

Caiff anfonebau eu codi'n electronig a chewch chi e-bost i roi gwybod pryd byddan nhw'n barod i'w talu. Mewngofnodwch i'ch cyfrif i wneud taliad ar-lein.

Os ydych chi'n cofrestru'ch plentyn i ddechrau gwersi yn Nhyrnor yr Hydref, ar ôl cwblhau'r broses gofrestru, rhagdybiwch y caiff lleoedd ar wersi eu cadw ar gyfer eich plentyn oni fyddwch chi'n rhoi gwybod i ni am wneud fel arall. Os oes unrhyw resymau na allwn ni ddarparu gwersi ar gyfer eich plentyn, byddwn ni'n cysylltu â chi.


Os ydych chi'n cofrestru'ch plentyn i ddechrau gwersi yn Nhyrnor y Gwanwyn neu'r Haf, cysylltwch a'r Swyddfa Gerdd i wneud yn siŵr bod yr athro'n gallu bod ar gael.

CANLLAW SGRÎN AR GOFRESTRU

Os yw'n well gennych chi ddilyn sgrinluniau, gweler isod
Cofrestru'ch plentyn ar gyfer Gwersi Cerdd mewn sgrinluniau
Cliciwch ar y ddolen <https://live.paritor.com/p/2306>


Bydd modd cofrestru ar gyfer Medi o ddiwedd Gorffennaf.

Gallai defnyddio ffôn symudol neu iPad achosi problemau i chi



Rhaid i chi Creu Cyfrif i gofrestru'ch plentyn ar gyfer gwersi

Dewis Creu Cyfrif



Nodwch gyfeiriad e-bost, defnyddir yr e-bost hwn i roi gwybod i chi pryd y bydd anfonebau'n barod i'w talu.


Cliciwch y botwm Anfon Cod Dilysu. Bydd e-bost yn cael ei anfon atoch gyda chod. Nodwch y cod hwnnw yn y blwch a chliciwch Dilysu Cod.

Yna, nodwch gyfrinair yr hoffech ei ddefnyddio. Rhaid i'ch cyfrinair gynnwys o leiaf wyth nod a thri o'r pedwar opsiwn canlynol; priflythyren, llythyren fach, rhif neu symbol. Cadarnhewch eich cyfrinair drwy ei nodi eto yn y blwch Cadarnhau Cyfrinair Newydd. Gwnewch nodyn o'ch cyfrinair. Bydd angen hwn i fewngofnodi i'ch cyfrif i dalu anfonebau

Cliciwch ar Creu Botwm



Cliciwch Cofrestru ar gyfer Gweithgaredd



Dewiswch Ysgol – Cliciwch ar saeth ar ddiwedd y maes i ddangos rhestr ddewis.
Gnewch yn siŵr eich bod yn dewis yr ysgol gywir

Cliciwch Nesaf



Dewiswch Wers – Cliciwch ar saeth ar ddiwedd y maes i ddangos yr offeryn yr hoffai'ch plentyn ei ddysgu

Cliciwch Nesaf

Registration
Step Two | Tuition

Please enter the instrument or singing part you would like to enrol for. If you are unsure please select Default Subject.

Please contact us if you wish to start lessons part way through a term, as we will need to confirm with the teacher that they have space available to accommodate your child. Please note that credits or refunds are not available for missed lessons.

Gwersi/Aelodau
Hodwch yr offeryn neu'r gwersi canu yr hoffech chi gofrestru ar eu cyfer. Os nad ydych chi wybod sut dewiswch Phen Rhagorodidly.
Cysylltwch â ni os hoffech ddechrau gwersi rhan-amser trwy dymor, gan y bydd angen i'w gadarnhau gyda'r athro bod ganddyn ni ar gael i letya eich plentyn. Hodwch nad yw credydau neu ad-daliadau ar gael ar gyfer gwersi a gollwyd.

Lesson: French Horn/Corn Ffrangeg

Activity Rate	Cost	Description
<input type="radio"/> Group	£55.00	
<input type="radio"/> Paired 20 minutes	£72.00	
<input type="radio"/> Individual 15 minutes	£108.00	
<input type="radio"/> Individual 30 minutes	£216.00	

Previous Next

Powered by Partfor

Dewiswch y math o wers yr hoffech ei chael. Noder bod opsiynau eraill a gwersi pâr/unigol, gweler y Ffioedd am Wersi Cerdd 2018/2019 uchod. Os byddai'n well gennych chi ddewis opsiwn nad yw wedi'i restru, dewiswch unrhyw fath o wers ac ar ôl cofrestru, cysylltwch â Swyddfa'r Gwasanaeth Cerdd a byddwn ni'n diweddarau'ch cyfrif i chi.

Registration
Step Three | Pupil

Please tell us who you would like to enrol for this activity.

Digrib
Dywedwch wrthydd pwy yr hoffech chi gofrestru ar gyfer y gweithgaredd hon.

Enrol an existing pupil
 Enrol a new pupil

Please Enter Pupil Details

First Name: _____
Middle Name: _____
Last Name: _____
Gender: Male Female
Date of Birth: _____
Ethnic Group:
Emergency Contact No: _____
School:
Free School Meals:
Looked After Child:
Disability:
Any medical information: _____
Any additional relevant information: _____

Please Enter Address

Address Line 1: _____
Address Line 2: _____
Town: _____
County: _____
Post Code: _____

Previous Next

Powered by Partfor

Dewiswch Cofrestru disgybl newydd
Nodwch Enw'r Disgybl
Nodwch Gyfeiriad y Disgybl
Dewis Gwryw / Benyw
Nodwch Ddyddiad Geni
Nodwch Rif Cyswllt mewn Argyfwng

Nodwch a yw unrhyw un o'r opsiynau'n berthnasol e.e. Prydau Ysgol Am Ddim ac ati yn berthnasol

Nodwch a oes gwybodaeth feddygol y mae'n rhan i'r athro fod yn ymwybodol ohoni neu a yw'ch plentyn yn cael cymorth gydag Anghenion Dysgu

Unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae'n rhaid i'r athro fod yn ymwybodol ohoni

Cliciwch Nesaf

Registration
Step Four | Parent/Guardian Details
Please tell us who you would like to enrol for this activity. (Parent)

Rhiant
Deddfwch wrthyfyn pwy hoffech chi gofrestru ar gyfer y gwelwch chi hys. (Rhiant)

I am a Parent/Guardian of Xi Yi. Please select the relationship type: **Select a relationship type**

Please Enter Parent/Guardian 2 Details

Relationship Type: **Select a relationship type**

Title:

First Name:

Last Name:

Address Line 1:

Address Line 2:

Town:

County:

Post Code:

Tel No:

Mobile No:

Email:

Powered by Parlor

Dewiswch eich perthynas â'r disgybl drwy glicio ar saeth ar ddiwedd y maes i ddangos rhestr ddewis

Dewiswch ail berthynas os hoffech chi gofnodi person arall yn unig.

Registration
Step Five | Privacy

The information you have provided will be used for Cardiff County and Vale of Glamorgan purposes, but it may be used for other Council purposes, where this is permitted by law. The Council is registered under the Data Protection Act 1998 for these purposes. The Council is the Data Controller for the purposes of the Data Protection Act 1998. If you want to know more about the information we have about you, or the way we use your information, please write to the Council's Data Protection Officer.


Prefatrwydd
Cafll y wybodaeth rydych chi'n rhoi ei ddefnyddio at ddibenion Gwasanaeth Cerdd Caerdydd a Sir Morgannwg, ond gallai gael ei ddefnyddio at ddibenion eraill y Cngor, 'the box' gyfnewid yn casglu. Cofrestru y Cngor dan Ddeddf Ddiogelu Data 1998 at y ddibenion hyn. Y Cngor yw'r Rheolwr Data at ddibenion Ddeddf Ddiogelu Data 1998. Os ydych chi'n wneud rwy an y wybodaeth sydd gennym anddoch chi, neu'r ffordd rydych chi'n defnyddio eich gwybodaeth, ysgrifennwch at Swyddog Ddiogelu Data'r Cngor.

Use for Marketing

Powered by Parlor

Darllenwch y testun os gwelwch yn dda. Os ydych chi'n fodlon i wybodaeth gael ei defnyddio, nodwch hynny drwy glicio ar y blwch/blychau

Cliciwch Nesaf


Welcome [LOGOUT]
 CCVG Music Service Portal / Gwasanaeth Cerdd Home About Partner

Registration

Step Six | Checkout

Congratulations, this Pupil has been registered for music lessons. Please ensure you complete the Edit Payer Details section below. You will receive an electronic invoice in due course. Please log into your account to make payment online.

If you have any questions please contact us on ccvgmusic@ccvgmusiccardiff.gov.uk

Tudalen Ddiu

Llwygfarchiadau, mae'r digrifol wedi cael ei gofrestru ar gyfer gwersi cerdd. Sicrhewch eich bod yn cwblhau'r adran Golygu Manylion Talwr isod. Byddwch yn derbyn anfoneb electronig maes o law. Nawgofnodiwch i'ch cyfrif i wnaud talied ar-lain.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cyffwrdd â ni ar ccvgmusic@ccvgmusiccardiff.gov.uk

Payer Details

Name _____
Address _____

Post Code _____
Home Tel No _____
Mobile Tel No _____

Email Address ccvgmusic@ccvgmusiccardiff.gov.uk
Edit Payer Details


Pupil Name	DOB	Gender	Venue	Activity	Activity Rate	Hire Required	Cost	Discount	Amount to Pay	
Mickey Mouse	01/07/2018	M	Adamsdown Primary School	French Horn/Corn Ffrenig	Group	N/A	£55.00	-	£55.00	Edit Remove
Total Amount to Pay:									£55.00	

I agree to the [terms and conditions](#)

Add Another Pupil Enrol Cancel Application

Powered by Partner

Cliciwch Golygu Manylion Talwr


Welcome Minnie Mouse [LOGOUT]
 CCVG Music Service Portal / Gwasanaeth Cerdd Home About Partner Sign In

My Details

Please enter your contact information

Title Miss ▼

First Name

Last Name

Address Line 1

Address Line 2

Town

County

Post Code


Tel No

Mobile No

Update

Powered by Partner

Llenwch y wybodaeth ar y sgrîn hon Cliciwch Diweddaru


Welcome Minnie Mouse [LOGOUT]
 CCVG Music Service Portal / Gwasanaeth Cerdd Home About Partner

Registration

Step Six | Checkout

Congratulations, this Pupil has been registered for music lessons. Please ensure you complete the Edit Payer Details section below. You will receive an electronic invoice in due course. Please log into your account to make payment online.

Name **Miss Minnie Mouse**
Address **24
Lake Road
Taynton
Cardiff**
Post Code **CF24 5EP**
Home Tel No **0193213456**
Mobile Tel No **07123456789**
Email Address ccvgmusic@ccvgmusiccardiff.gov.uk
Edit Payer Details

Pupil Name	DOB	Gender	Venue	Activity	Activity Rate	Hire Required	Cost	Discount	Amount to Pay	
Mickey Mouse	01/07/2018	M	Adamsdown Primary School	French Horn/Corn Ffrenig	Group	N/A	£55.00	-	£55.00	Edit Remove
Total Amount to Pay:									£55.00	

I agree to the [terms and conditions](#)

Add Another Pupil Enrol Cancel Application

Powered by Partner

Bydd crynodeb yn ymddangos o'r manylion cofrestru e.e. enw plentyn, dyddiad geni, Ysgol, Offeryn, math o wers a chost fesul tymor.

Gwiriwch fod y wybodaeth yn gywir

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen y Telerau ac Amodau.

Ticiwch yn y blwch i gytuno i'r Telerau ac Amodau.

Os ydych chi angen cofnodi ail offeryn ar gyfer eich plentyn, cliciwch Ychwanegu Disgybl Arall. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis "Cofrestru disgybl presennol" ar y sgrîn nesaf

Os oes angen i chi gofrestru plentyn arall, cliciwch Ychwanegu Disgybl Arall. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis "Cofrestru disgybl newydd" ar y sgrîn nesaf

Ar ôl i'r holl wybodaeth gael ei chofnodi, cliciwch Cofrestru

Byddwch wedyn yn derbyn e-bost cadarnhau yn dweud eich bod wedi cofrestru'n llwyddiannus.

Caiff anfonebau eu codi'n electronig a chewch chi e-bost i roi gwybod pryd byddan nhw'n barod i'w talu. Mewngofnodwch i'ch cyfrif i wneud taliad ar-lein.

Os ydych chi'n cofrestru'ch plentyn i ddechrau gwersi yn Nhymor yr Hydref, ar ôl cwblhau'r broses gofrestru, rhagdybiwch y caiff lleoedd ar wersi eu cadw ar gyfer eich plentyn oni fyddwch chi'n rhoi gwybod i ni am wneud fel arall. Os oes unrhyw resymau na allwn ni ddarparu gwersi ar gyfer eich plentyn, byddwn ni'n cysylltu â chi.

Os ydych chi'n cofrestru'ch plentyn i ddechrau gwersi yn Nhymor y Gwanwyn neu'r Haf, cysylltwch a'r Swyddfa Gerdd i wneud yn siŵr bod eich Athro'n gallu bod ar gael.

Talu Ffioedd

Caiff anfonebau eu paratoi'n electronig a chewch wybod dros e-bost pan fyddant yn barod i'w talu. Defnyddir y cyfeiriad e-bost y defnyddioch wrth gofrestru i wneud hyn.

Atodir copi o'r anfoneb i'r e-bost er gwybodaeth yn unig. Rhaid talu'r ffioedd ar-lein.

Caiff anfonebau eu hanfon bob tymor. Byddwch yn cael gwybod pryd i dalu'r ffioedd dros e-bost. Rhaid talu'r ffioedd cyn pen 28 diwrnod ar ôl i'r e-bost ddod i law. Bydd methu â thalu'r ffioedd mewn pryd yn golygu na fydd eich plentyn yn cael gwersi/cymryd rhan mewn sesiynau ensemble nes bydd y ffioedd wedi dod i law, **fodd bynnag, bydd disgwyl i chi dalu'r ffioedd y tymor cyfan**. Os na chaiff y ffioedd eu talu mewn pryd, bydd cyfrifoldeb y Gwasanaeth Cerdd i roi gwersi/sesiynau ensemble i'ch plentyn yn dod i ben a bydd Gwasanaeth Adfer Dyledion y Cyngor yn bwrw ati i adfer unrhyw symiau sy'n ddyledus – a allai arwain at roi camau gweithredu ar waith yn eich erbyn.

I dalu ar-lein, dilynwch y camau isod:

Gallai defnyddio ffôn symudol neu iPad achosi problemau.

- Cliciwch ar y ddolen <http://live.paritor.com/p/2306>
- Dewiswch Mewngofnodi a mewngofnodwch i'ch cyfrif – os na allwch gofio'ch cyfrinair, dewiswch **Methu cael mynediad i'ch cyfrif** a dilynwch y cyfarwyddiadau i'w ail-osod.
- Dewiswch **Fy Anfonebau**
- Dewiswch y **Botwm Talu** ar ddiwedd Manylion yr Anfoneb
- Nodwch fanylion talu

Cwestiynau Cyffredin

1. Sut ydw i'n cofrestru fy mhlentyn ar gyfer gwersi cerdd/ensembles?

I gofrestru un ai ewch i'r dudalen gofrestru ar ein gwefan

<https://ccvgmusicservice.org/> neu dilynwch y ddolen ganlynol

<http://live.paritor.com/p/2306>. Ceir cyfarwyddiadau ar sut i gofrestru ar dudalen 7 y ddogfen hon.

2. Beth yw'r broses os yw fy mhlentyn eisiau rhoi'r gorau i wersi/mynd i ensemble?

Os yw eich plentyn eisiau rhoi'r gorau i wersi/ensemble ysgrifennwch at swyddfa'r gwasanaeth cerdd cyn gynted â phosibl un ai dros e-bost neu drwy lythyr. Yna bydd y gwersi/sesiynau'n dod i ben. Os ydych am roi'r gorau iddi yn ystod y tymor nid oes rhaid i'ch plentyn barhau gyda gwersi/sesiynau am weddill y tymor, fodd bynnag bydd y **ffioedd am y tymor llawn** yn parhau i fod yn daladwy. Dylech ysgrifennu at Wasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW neu anfon e-bost i gwasanaethcerddccbm@caerdydd.gov.uk i roi gwybod am eich bwriad i dynnu eich plentyn o wersi. **Ni fydd rhoi gwybod ar lafar neu'n ysgrifenedig i'r athro ensemble/ysgol yn ddigonol.**

3. Beth yw'r broses o ran newid math y wers/offeryn/ensemble?

Os ydych eisiau newid y math o wers a gaiff eich plentyn e.e. o wers grŵp i wers mewn pâr ac ati, rhowch wybod i'r swyddfa'n ysgrifenedig ar unwaith. Dylech ysgrifennu at Wasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW neu anfon e-bost i gwasanaethcerddccbm@caerdydd.gov.uk i roi gwybod am eich bwriad i dynnu eich plentyn o wersi. Byddwn yn cysylltu â'r athro i weld a yw hyn yn ymarferol. Dylech nodi **na ellir** newid y math o wers/ensemble ran o'r ffordd drwy'r tymor. **Yr un yw'r drefn os yw eich plentyn yn dymuno newid i chwarae offeryn arall.**

4. Beth yw'r broses os yw fy mhlentyn yn symud i ysgol arall?

Os yw eich plentyn yn symud i ysgol arall ym mis Medi neu ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ac am barhau gyda'r gwersi cerdd, cysylltwch â swyddfa'r Gwasanaeth Cerdd gydag enw'r ysgol newydd er mwyn inni allu sicrhau bod y gwersi sy'n ofynnol ar gael. Os na fyddwch yn cysylltu â'r Gwasanaeth Cerdd ni allwn sicrhau y caiff eich plentyn ei gynnwys mewn gwersi.

5. Beth sy'n digwydd os yw fy mhlentyn yn methu gwर्स?

Os yw'r athro ar gael ond bod y myfyriwr yn methu dod i'r wers am unrhyw reswm e.e. trip ysgol, diwrnod chwaraeon, salwch, nid oes gofyn i'r athro gynnig gwर्स arall yn lle'r wers honno. Os yw'r athro yn absennol o wers, gwneir pob ymdrech i gynnig gwर्स arall yn lle'r wers honno yn y dyfodol. Bydd yr athro un ai'n ail-drefnu'r wers a gollwyd neu'n cynnig gwर्स hirach rhyw dro arall. .

6. Pryd y cynhelir gwersi/sesiwn ensemble fy mhlentyn?

Cynhelir gwersi cerdd yn ystod oriau ysgol yn y rhan fwyaf o ysgolion. Gan fod gwersi cerdd yn cael eu cynnal yn ystod oriau ysgol bydd yr athro a'r ysgol yn ceisio sicrhau nad yw disgyblion yn colli pynciau craidd. Dylech nodi na fydd eich plentyn yn cael gwersi wythnosol bob tro ond y rhoddir y nifer priodol o wersi iddo.

Cynhelir ensembles gyda'r nos yn ystod y tymor ysgol.

7. Beth sy'n digwydd os yw gwersi fy mhlentyn yn disgyn ar ddiwrnod HMS neu Wyl y Banc?

Caiff y gwersi eu hail-drefnu a'u cynnal ar ddyddiad arall. Dylech nodi y gellir cynnal gwersi a aildrefnir ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.

8. Oes modd i'm plentyn ddechrau gwersi ran o'r ffordd drwy'r tymor?

Rydym yn argymhell dechrau gwersi cerdd/sesiynau ensemble ar ddechrau tymor. Os ydych eisiau dechrau gwersi ran o'r ffordd drwy'r tymor mae **ffioedd y tymor cyfan** yn daladwy hyd yn oed os collwyd rhai gwersi.

Cysylltwch â ni os ydych eisiau dechrau gwersi ran o'r ffordd drwy dymor gan y bydd angen i ni gadarnhau gyda'r athro/arweinydd ensemble bod lle ar gael ar gyfer eich plentyn.

9. Beth sy'n digwydd os bydd fy mhlentyn yn anghofio ei offeryn?

Mae'n bosib y bydd cyfle i'ch plentyn fenthycu offeryn. Gall yr athro aseinio tasg gerddorol arall iddo neu, yn anffodus ni chynhelir y wers.

10. Beth a ddisgwylir gan fy mhlentyn?

- Ei fod yn dod i'r wers yn brydlon
- Sicrhau bod ei offeryn ac unrhyw lyfrau perthnasol ganddo
- Ymarfer gartref - heb ymarfer ni fydd eich plentyn yn gwneud y cynnydd disgwylidig

11. Beth os oes gan fy mhlentyn arholiadau TGAU / Lefel A yn ystod Tymor yr Haf?

Os yw eich plentyn yn sefyll arholiadau TGAU/ Lefel A yn ystod Tymor yr Haf a'i fod yn cael gwersi cerdd yn yr ysgol, codir y ffi am hanner y tymor arnoch waeth faint o wersi a gaiff eich plentyn. Os yw hyn yn berthnasol i'ch plentyn chi, rhowch wybod i swyddfa'r Gwasanaeth Cerdd. Os **na** fydd eich plentyn yn dod i'w wersi cerdd yn ystod Tymor yr Haf oherwydd arholiadau, rhowch wybod i swyddfa'r Gwasanaeth Cerdd cyn dechrau Tymor yr Haf.

**12. Mae fy nghyfeiriad e-bost / rhif ffôn / cyfeiriad tŷ ac ati wedi newid.
Sut ydw i'n diweddarau fy manylion?**

Ar gyfer unrhyw un o'r uchod, cysylltwch â swyddfa'r Gwasanaeth Caerdydd drwy ffonio 029 2087 2951 / 029 2087 2883 neu e-bostio GwasanaethCerddCCBM@Caerdydd.gov.uk.

13. Sut ydw i'n talu fy anfoneb ar gyfer gwersi cerdd/ensemble?

Byddwch yn talu eich anfoneb ar-lein. Dilynwch y ddolen hon i gael cyfarwyddiadau ar sut i wneud hyn NEU darllenwch y wybodaeth yn adran Talu Ffioedd y canllaw hwn, tudalen 13.

14. Nid wyf wedi cael fy anfoneb

Edrychwch drwy eich e-byst sbam. Ydych chi wedi newid eich cyfeiriad e-bost ers i chi gofrestru eich plentyn? . Os nad yw'r e-bost yn eich mewnlwch neu sbam, cysylltwch â swyddfa'r Gwasanaeth Cerdd drwy ffonio un ai 029 2087 2951 neu 029 2087 2883.

15. Nid wyf yn gallu mewngofnodi i'm cyfrif

Gall defnyddio ffôn symudol neu iPad achosi problemau. Dilynwch y ddolen <http://live.paritor.com/p/2306> a defnyddiwch y cyfeiriad a'r cyfrinair a ddefnyddiwyd gennych i greu eich cyfrif. Os nad ydych yn gallu cofio'r cyfrinair, dilynwch y ddolen 'Anghofio Cyfrinair' ac yna byddwch yn gallu ei ailosod drwy ddilyn y wybodaeth ar y sgrin. Ar ôl dilyn y camau, os ydych yn dal yn methu â mewngofnodi i'ch cyfrif cysylltwch â swyddfa'r Gwasanaeth Cerdd drwy ffonio 029 2087 2951 neu 029 2087 2883.

16. Sut allaf i brynu offeryn drwy'r Cynllun Prynu Offeryn â Chymorth? .

Mae'r cynllun hwn yn eich galluogi i brynu offerynnau heb dalu TAW. Mae'n **rhaid** bod eich plentyn yn cael gwersi cerdd yn yr ysgol gan un o'n hathrawon cerdd. Bydd athro cerdd eich plentyn yn gallu cynnig cyngor ar offerynnau priodol a nhw ddylai lofnodi ffurflen y Cynllun Prynu â Chymorth. I gael gafael ar gopi o'r Ffurflen berthnasol a darllen rhagor o wybodaeth, ewch i'r wefan <http://www.ccvgmusicsservice.org>. I weld cost yr offerynnau, ewch i'r wefan fel uchod. Nid yw hon yn rhestr gyflawn a gall y prisiau newid yn ystod y flwyddyn academaidd.

17. Oes modd i'm plentyn roi cynnig ar offeryn cyn i mi ei brynu?

Mae dau o'n cyflenwyr yn fusnesau lleol a gallwch ymweld â'u safleoedd lle gallwch weld amrywiaeth o offerynnau a thrafod eich anghenion penodol. Y cyflenwyr yw:

Pencerdd Music, 4 Station Approach, Penarth, Bro Morgannwg CF64 3EE
neu
Ev-Entz, Crawford Street, Casnewydd, NP19 7AY

DYDD LLUN	DYDD MAWRTH	DYDD MERCHER
<p>CERDDORFA PONTIO</p> <p>KYLE JONES</p> <p>5:30PM – 7:30PM Gradd 2 ac uwch</p> <p>Kyle Jones Gweinyddwr</p> <p>Canolfan Gelfyddydau'r Chapter, Treganna</p> <p style="text-align: right;">£62</p>	<p>CÔR HYFFORDDI</p> <p>LARA JONES / LIZ ROBERT</p> <p>5:15pm – 7:00pm Blynyddoedd Ysgol 3-8</p> <p>Canolfan Gelfyddydau'r Chapter, Treganna</p> <p style="text-align: right;">£42</p>	<p>BAND PRES YSGOLION UWCHRADD</p> <p>TOM GRIFFIN</p> <p>6:00pm – 8:00pm Oedran Ysgol Uwchradd Gradd 2 ac uwch</p> <p>Bernie Martin Gweinyddwr</p> <p>Canolfan Gelfyddydau'r Chapter, Treganna</p> <p style="text-align: right;">£62</p>
<p>BAND CHWYTH HÛN</p> <p>KYLE JONES / JOE O'CONNELL</p> <p>7:00pm – 9:00pm Gradd 4</p> <p>Canolfan Gelfyddydau'r Chapter, Treganna</p> <p style="text-align: right;">£62</p>	<p>ENSEMBLE GITÂR IAU</p> <p>MICHELLE PREECE</p> <p>6.30pm – 8:00pm Wedi bod yn chwarae am flwyddyn, yn darllen cerddoriaeth</p> <p>Canolfan Gelfyddydau'r Chapter, Treganna</p> <p style="text-align: right;">£52</p>	<p>BAND PRES IEUENCTID</p> <p>CHARLES MAYNARD</p> <p>6:30 – 8:30pm Gradd 6 ac uwch</p> <p>Natalia Hughes Gweinyddwr</p> <p>Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf</p> <p style="text-align: right;">£62</p>
	<p>ENSEMBLE GITÂR HÛN</p> <p>DAN WHITTING</p> <p>7:00pm – 8:30pm Gradd 3 ac uwch</p> <p>Canolfan Gelfyddydau'r Chapter, Treganna</p> <p style="text-align: right;">£52</p>	<p>PRES - DECHREUWYR</p> <p>CHARLOTTE GRIFFIN</p> <p>4.30pm – 6.30pm</p> <p>Canolfan Gelfyddydau'r Chapter, Treganna</p> <p style="text-align: right;">£62</p>
		<p>BAND PRES SYLFAEN</p> <p>TOM GRIFFIN</p> <p>5.30pm – 7.30pm</p> <p>Canolfan Gelfyddydau'r Chapter, Treganna</p> <p style="text-align: right;">£62</p>

DYDD IAU	DYDD GWENER	DYDD SADWRN
CERDDORFA SYLFAEN GARY BEAUCHAMP 5:45pm – 7:15pm Cynradd Wedi bod yn chwarae am flwyddyn Rebecca Percy Gweinyddwr £52 Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd	PRES SYMFFONIG MATTHEW THISTLEWOOD 4:30pm – 5:45pm Drwy wahoddiad yn unig Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd	CERDDORFA YSGOLION UWCHRADD CHARLES MAYNARD 10:00am – 12:00pm Gradd 4 ac uwch Natalia Hughes Gweinyddwr £62 Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd
BAND MAWR YSGOLION UWCHRADD NEIL MORGAN 5:00pm – 6:25pm Blynyddoedd Ysgol 7-9 Gradd 2 ac uwch £52 Canolfan Gelfyddydau'r Chapter, Treganna	CERDDORFA IEUENCTID ERIC PHILLIPS 7:00pm – 9:00pm Chwaraewyr Uwch Julie Thorne Gweinyddwr £62 Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd	DOSBARTHIADAU OFFERYNNAU TARO CELI JOHNSTON Dechreuwyd 11:00am - 12:00pm Canolraddol 10:00am - 11:00am Uwch 9:00am – 10:00am Natalia Hughes Gweinyddwr £52 Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd
BAND MAWR IEUENCTID NEIL MORGAN 6:30pm – 8:30pm Blynyddoedd Ysgol 10-13 Gradd 4/5 ac uwch £62 Canolfan Gelfyddydau'r Chapter, Treganna		
CŌR IEUENCTID HOLLIE CLARK & JAMES DAVIES 6:30pm – 8:30pm 14 mlwydd oed a hŷn £42 Canolfan Gelfyddydau'r Chapter, Treganna		

